OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 965 (Cy. 139)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Swyddogaethau Atodol) 2011

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae adran 69(5) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, roi unrhyw swyddogaethau atodol yn ymwneud â darparu addysg sydd yn eu barn hwy yn briodol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru neu osod y swyddogaethau atodol hynny arno.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi swyddogaethau atodol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Mae'r swyddogaethau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn swyddogaethau y caiff Gweinidogion Cymru eu harfer mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 sy'n ymwneud â thalu grant ffioedd dysgu i sefydliadau addysg uwch (ac adennill y grant hwnnw) mewn perthynas â myfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau addysg uwch dynodedig ar 1 Medi 2012 neu ar ôl hynny.

2011 Rhif 965 (Cy. 139)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Swyddogaethau Atodol) 2011

Gwnaed *28 Mawrth 2011*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *29 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *19 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 69(5) ac 89(4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy**(2**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Swyddogaethau Atodol) 2011 a daw i rym ar 19 Ebrill 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "Rheoliadau 2011" (*"the 2011 Regulations"*) yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011(**3**); a

(**1**) 1992 p.13; diwygiwyd adran 89(4) gan Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddi 2007 (p. 25), adran 26 ac Atodlen 1, paragraff 11.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 69(5), i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) – *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 2011/886 (Cy.130).

(b) mae i "grant ffioedd newydd" ("*new fee grant*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 2(1) o Reoliadau 2011.

Swyddogaethau Atodol

2. Mae'r swyddogaethau a ganlyn, sef swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Reoliadau 2011(**1**), wedi eu rhoi i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru(**2**)—

(a) swyddogaethau yn ymwneud â thalu grant ffioedd newydd o dan reoliad 65 o Reoliadau 2011;

(b) swyddogaethau yn ymwneud ag adennill gordalu'r grant ffioedd newydd o dan reoliad 70 o Reoliadau 2011; ac

(c) swyddogaethau yn ymwneud â gwneud cais am wybodaeth o dan Atodlen 3 i Reoliadau 2011 a chael yr wybodaeth honno, i'r graddau y mae'r swyddogaethau hynny yn ymwneud â thalu neu adennill grant ffioedd newydd.

3. Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn yn atal Gweinidogion Cymru rhag arfer y swyddogaethau a ddisgrifir yn erthygl 2.

Leighton Andrews

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

28 Mawrth 2011

(**1**) Mae adran 69(6) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn disgrifio'r amgylchiadau pan fo swyddogaeth yn swyddogaeth atodol o ran y Cyngor Cyllido.

(**2**) A sefydlwyd gan adran 62 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.